

Anfonir copïau o'r holl ddiwyddiadau hyfforddiant at bob rhanddeiliad/partner ar draws yr holl gymwysterau perthnasol. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu dosbarthu drwy'r llyfryn hyfforddiant (yn electronig ac fel copi caled) ac ar gronfa ddata hyfforddiant y Gweithlu. Mae'r llyfryn a'r calendr hyfforddiant ar wefan Cyngor Sir y Fflint ac mae'n cynnwys manylion am bob cwrs, sut i ymgeisio ynghyd â ffurflen gais. Gall dyddiadau a lleoedd hyfforddiant ychwanegol gael eu hychwanegu neu gall taflenni gael eu dosbarthu pan fyddant ar gael a bydd negeseuon e-bost yn cael eu hanfon i roi gwybod i'r Partneriaid am unrhyw leoedd ychwanegol a fydd ar gael. Bydd y Partneriaid hefyd yn cael gwybod am le(oedd) sy'n cael eu dyrannu neu pan fydd cais yn aflwyddiannus.

Mae pob cwrs o'r fath yn rhad ac am ddim i'r holl randdeiliaid yn Sir y Fflint. Ceidw'r cyngor yr hawl i godi tâl am beidio â bod yn bresennol. Y dull presennol o archebu lleoedd ar gyrsiau yw ar gopi caled drwy'r post neu ffacs, neu'n electronig drwy e-bost.

Yn unol â Strategaeth Gwybodaeth Gyhoeddus 2017 a Safonau'r Gymraeg, byddwn yn ymdrechu bob amser i fodloni'r egwyddorion canlynol sy'n ymwneud â gwybodaeth gyhoeddus a gwybodaeth a gyhoeddir ar wefan Sir y Fflint:-

- Byddwn yn llunio taflenni gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigiwn ac rydym wedi ymrwmo i egwyddorion iaith glir a hygyrchedd gwybodaeth. Rydym yn cynhyrchu ein gwybodaeth gyhoeddus yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg), ac mewn ieithoedd a fformatau eraill os gofynnir, yn unol â safonau corfforaethol ac arferion da a dderbynnir.
- Rydym yn darparu ac yn arddangos ystod o daflenni, ffurflenni a phosteri gwybodaeth gyhoeddus, sy'n rhoi manylion ein gwasanaethau a'n cynlluniau.
- Mae tudalennau gwe'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwybodaeth fanwl am ein gwasanaethau ac yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gyfathrebu â'n gwasanaethau ar-lein. Rydym hefyd yn darparu dolenni i gyfeirio at adnoddau defnyddiol eraill a gwefannau partner ar-lein.
- Byddwn hefyd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwybodaeth gyhoeddus newydd.

Mae adran hyfforddiant Sir y Fflint yn cwrdd â'u partneriaid 4 gwaith y flwyddyn yng nghyfarfod Partneriaeth y Strategaeth Hyfforddiant i rannu gwybodaeth berthnasol am faterion partneriaeth perthnasol a gofyn eu barn. Nod y cyfarfodydd yw

1. Adolygu'r cyfleoedd hyfforddiant a datblygu sydd ar gael i'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn Sir y Fflint ac achosi newid er mwyn adlewyrchu'r angen.
2. Gweld unrhyw fylchau a gwendidau yn y trefniadau presennol a rhoi sylw iddynt pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

3. Gweld a rhagweld anghenion newidiol dros y flwyddyn nesaf.
4. Monitro materion hyfforddiant a datblygu a chanfod atebion ar y cyd i broblemau a rennir.
5. Cysylltu â'r cyrff rhanbarthol neu genedlaethol priodol pan fo angen.
6. Canfod a chyflwyno ceisiadau ar y cyd am arian pan maent ar gael, mewn cydweithrediad â Gofal Cymdeithasol mewn Partneriaeth (SCiP) Gogledd Cymru lle bo'n briodol.
7. Monitro'r broses o werthuso'r rhaglenni hyfforddiant a ariennir gan SCWDP gan sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian.

Mae holl gyfarfodydd y Bartneriaeth yn agored i'r holl randdeiliaid a chaiff agendau a chofnodion eu cylchredeg ymlaen llaw yn electronig.

Gwahoddir y sefydliadau canlynol i anfon cynrychiolydd i'r Bartneriaeth:

- Darparwyr y Sector Annibynnol a ddynodir drwy lenwi'r Arolwg Gweithlu
- Darparwyr Gofal i Oedolion
- Darparwyr Gofal Cartref
- Darparwyr Gofal i Blant
- Strategaeth Iechyd a Gofal
- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Addysg Bellach ac Uwch - Coleg Cambria
- Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr
- Grŵp Llywio Taliadau Uniongyrchol
- Penderels Trust (sy'n darparu gwasanaethau i rai sy'n cael Taliadau Uniongyrchol).
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)
- Gofalwyr Maeth (drwy Wasanaeth Maethu Sir y Fflint)
- Darparwyr Hyfforddiant Cymeradwy yn Sir y Fflint
- Gofal Cymdeithasol mewn Partneriaeth (SCiP) Gogledd Cymru
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)
- Yr holl fudiadau annibynnol gwirfoddol sy'n cyflogi naill ai weithwyr gofal cymdeithasol neu Weithwyr Cymdeithasol.
- Mind Sir y Fflint
- Age Connects Gogledd-ddwyrain Cymru
- Tîm Datblygu Gweithlu CSFf
- Dysgu a Datblygu Corfforaethol CSFf
- Tîm Monitro Contractau CSFf
- Tîm Cefnogi Blynnyddoedd Cynnar a Theuluoedd CSFf
- Uwch Reolwyr – Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant
- Gweithredu dros Blant
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Gwasanaeth Ieuencid a Throseddau Ieuencid Sir y Fflint.
- Yn ychwanegol at y rhanddeiliaid hyn, caiff digwyddiadau hyfforddiant eu cylchredeg i fudiadau gwirfoddol bychan yn y maes gofal cymdeithasol.